# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

**COFNODION CYFARFOD MIS EBRILL 2021:**
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor ar Zoom (diolch i HLJ am drefnu) nos Fercher 14eg o Ebrill, 2021, am 7 y.h.
Estynwyd croeso gan y Cadeirydd i'r aelodau ynghŷd â Chris Williamson oedd wedi dod i drafod sut y bwriedir (os bydd caniatad cynllunio) creu Trac Beics ar lan Llyn Padarn.

**1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Olwen Gwilym, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Iwan Harding,
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3 TRAC BEICS - CHRIS WILLIAMSON:**
Croesawyd Chris Williamson (CW) i ychwanegu at y wybodaeth ynglŷn a'r posibilrwydd o greu trac beics ar lan Llyn Padarn ger Glynrhonwy. (Cafwyd ymddiheurad gan Carwyn Williams, Rheolwr Adnoddau Hamdden, Cyngor Gwynedd am fethu bod yn bresennol oherwydd ymrwymiad gwaith arall). Eglurodd fod nifer o faterion yn cael eu hystyried: maint y trac, yr amgylchedd a'r ffaith fod y tir yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), llifogydd, diogelwch, cynnal a chadw a parcio ceir. Ychwanegodd ei fod ef a chyfaill, a oedd wedi methu bod yn bresennol, wedi trafod y coed a'r llysdyfiant gyda arbenigwr lleol ac wedi dod i'r casgliad nad oedd unrhyw blanhigion prin ar y safle dan sylw. Ychwanegodd iddo gael ar ddeall na fyddai'r cynllun yn effeithio ar y torgoch (un o bysgod pwysig y llyn) na chwaith un o deulu llyriad-y-dŵr. Mae rhai coed ynn yn dioddef o afiechyd, a byddant yn cael eu torri yn y dyfodol agos.
Roedd hefyd o'r farn unwaith y byddai'r gwaith wedi ei gwblhau mai ychydig iawn o gostau cynnal a chadw fyddai ar y safle. Byddai'r beicwyr lleol meddai yn siwr o sicrhau nad oedd sbwriel yn broblem, ac roedd yn sicr y byddai cymysgedd o oedran yn defnyddio'r trac fel nad plant yn unig fyddai yno.
Gan fod lefelau'r llyn yn medru codi ar ôl cyfnod o dywydd gwlyb sylweddol roedd hi'n anodd gweld beth fyddai effaith llifogydd, ond o gael seilwaith da a traeniad digonol i'r trac roedd o'r farn na ddylai llifogydd fod yn broblem fawr. O ran llygredd i ddŵr y llyn roedd o'r farn na fyddai'n ddim o gymharu ag effaith trafnidiaeth ar y ffordd fawr.
Dywedodd CW ei fod yn ystyried fod y math hwn o drac yn gymharol ddiogel, o'i gymharu a parc sglefrio, gan na fyddai yno ddim ymylon caled a doedd o ddim yn ystyried y byddai llwybr beics fel hyn yn gwau trwy'r coed yn or-beryglus yn enwedig o gofiomai llwybr un ffordd yn unig fyddai hwn. Roedd am iddo fod mor naturiol a phosib a pwysleisiodd mai adnodd lleol oedd hwn er y byddai ymwelwyr yn siwr o'i ddefnyddio a byddai'n addas, oherwydd yr wyneb asffalt, i ddefnyddwyr heblaw beicwyr.
Mynegwyd pryder gan sawl cynghorydd y byddai cyfrifoldeb am y trac yn faich ariannol ychwanegol i'r Cyngor, ond dymuniad KMJ a'r datblygwyr oedd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cymeryd prydles ar y tir oddi wrth Gyngor Gwynedd (CG) y perchennog, yn yswirio'r trac ac yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw.
Gan nad oes sicrwydd y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi caniatad i'r cynllun roedd yn anodd penderfynnu a fyddai'n addas ei gefnogi, ond mewn egwyddor roedd yn ymddangos y gallai'r Cyngor fod o gymorth a'r mwyafrif o'r aelodau gefnogol o ran egwyddor i'r cynllun. Ond rhybuddiwyd y bydd materion fel y cymal diweddu'r brydles a dyfodol y tir wedyn o'r pwys mwya i'r Cyngor yn y dyfodol. Diolchwyd i CW am fynychu'r cyfarfod a'i gyfraniad iddo.

**4 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher 10fed o Fawrth, 2021 fel rhai cywir a threfnir i'r Cadeirydd eu harwyddo yn y dyddiau nesaf. Cynnig ac eilio: HLJ / KJ.

**5 MATERION YN CODI O'R COFNODION:**
***1. Cynllun Cyfaill:***
Y gwasanaeth yn dal ar gael.

***2. Cofeb y Chwarelwyr:***
Adroddodd y Clerc iddo dderbyn 4 bras gynllun ar gyfer y gofeb a bod posibilrwydd o dderbyn un neu efallai ddau arall yn y dyddiau nesaf. Unwaith y bydd y rheini wedi eu derbyn addawodd eu dosbarthu i'r aelodau ac o bosib trefnu cyfarfod brys i'w hystyried.
***3. Cae Chwarae Dôl Elidir:***
Dywedwyd nad oedd modd i gadair olwyn fynd trwy'r glwyd. Addawodd y Clerc gysylltu a CG.
***4. Cae Chwarae Ger y Llyn:***
Mae rhai trafferthion pellach wedi dod i'r golwg efo'r siglenni.
***5. Defaid Crwydrol:***
Dim wedi newid, ond cyfeiriwyd at sawl terfyn lle mae gwendid a lle i'r defaid ddod i'r pentref.
***6. Cae Pob Tywydd UEFA:***
Un cwmni yn unig oedd wedi ymateb i gais gan y Clerc am brisiau, ond roedd amrywiaeth yn rheini yn dibynnu ar faint y difrod i wyneb y cau. Roedd y Clerc o'r farn y dylid gofyn i gynrychiolydd y cwmni ddod draw i asesu faint o waith sy'n angenrheidiol ac i roi pris. Cyn hynny addawodd RhaG holi swyddogion Clwb Rygbi Caernarfon a oedd wedi cael trwsio eu cae yn ddiweddar i weld oedd na gwmni arall allai fod a diddordeb.

**6 MATERION ERAILL**
*1. Parc Bach:*
Adroddodd y Clerc iddo ofyn i EB dacluso'r cae a chlirio'r mwsog oddi ar y gwaith bric. Roedd y gwaith wedi ei gwblhau a chafwyd canmoliaeth. Ar awgrym EB roedd y seddi hefyd wedi eu trin. Roedd y gost wedi ei chynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn ariannol a oedd newydd ddod i ben.
Roedd yna awgrym hefyd y dylid edrych ar y giat oedd yn mynd i mewn i'r parc, ac efallai ei haddasu. Addawodd y Clerc gysylltu a EB i wneud y gwaith.
***2. Cyrn Band Llanberis:***
Rai blynyddoedd yn ôl rhoddwyd benthyg cyrn hen Seindorf Llanberis i Ysgol Dolbadarn. Yn ddiweddar derbyniwyd llythyr yn nodi bod y cyrn wedi eu darganfod yn yr ysgol, ond nad oedd defnydd ar eu cyfer a gofynnwyd a fyddai'n bosib efallai eu gwerthu i rywun fel Ysgol Gerdd William Mathias a defnyddio'r arian er budd yr ysgol. Syndod oedd deall hyn a phenderfynwyd mai gwell fyddai cael rhywun i'w harchwilio ac wedyn os oedd oeddynt o werth eu cynnig i rywun fyddai'n gwerthfawogi eu cael i'w defnyddio gyda pobl ieuanc.

**7 CYNLLUNIO:**
**Cyngor Gwynedd:**
**C21/0206/15/LL** - Gwesty Victoria, Llanberis - *Creu eisteddle awyr agored unllawr o dan do* - Dim sylw.
**C21/0233/15/LL** - Regent House, 59 Stryd Fawr, Llanberis - *Cais ar gyfer dymchwel estyniadau yng nghefn yr adeilad a chodi estyniad deulawr yn ei le* - Dim sylw.
**C21/0289/15/DT -** Summer Hill, 6 Ffordd Ty Du, Llanberis - *Cais ar gyfer dymchwel anecs unllawr presennol a chodi anecs deulawr yn ei le* - Dim sylw.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):**
**NP3/15/44H** - Pant y Cafn, Llanberis - *Newid defnydd arfaethedig o garej a gweithdy yn uned gwyliau a chyntedd newydd* - Dim Sylw.

**8 GOHEBIAETH:**
***1. HSBC:***
Derbyniwyd neges oddi wrth y HSBC yn nodi fod banc arall yn hawlio arian am siec a gliriwyd ganddo ond heb hawlio'r arian ar y pryd o gyfrif y Cyngor. Roedd y siec yn daladwy i CG am £4,000 yn mis Mai 2019 ac yn rhan o gyfrifon blwyddyn ariannol 2018-19. Roedd CG wedi derbyn yr arian, ond heb ei dynnu o gyfrif y Cyngor er i'r Clerc godi'r mater gyda'r banc. Gan mai ar ebost y daeth y neges penderfynwyd aros i weld a fyddai gohebiaeth pellach.

**9 MATERION ARIANNOL:**

**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Fawrth, 2021**

**Cyfrif Cyfredol**: £16,193.06 **Cyfrif Cadw**: £5,365.97

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**

**CYFANSWM … … £465.00**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/02/2020 a 28/03/2021:**

Dim

**CYFANSWM ... ...**

Cynnig ac eilio: TT / OG.

**10 LLWYBRAU / Y FYNWENT:**

***1 Y Fynwent***

Roedd y Clerc wedi derbyn cwyn fod cerrig a pridd wedi eu gadael ger wal y ffordd nepell o'r biniau. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu i'w clirio.

***2 Llwybrau:***

Soniwyd fod cwestiwn ynglŷn a chyflwr llwybr ger Gardda, Nantperis

**11. ADRODDIADAU ALLANOL:**

***1. Mynydd Gwefru:***

Bu RhaG, KMJ, TT a'r Clerc mewn cyfarfod Zoom, a drefnwyd gan swyddfa Plaid Cymru Arfon gyda chynrychiolwyr o gynghorau Llanrug a Llanddeiniolen i drafod dyfodol Mynydd Gwefru. Ym marn y Clerc codwyd bwganod, gan Aelod Senedd Cymru Sian Gwenllian (SG), am ddyfodol nid yn unig y ganolfan Sy'n debyg o gael ei thynnu i lawr) ond dyfodol y pwerdy hefyd. Roedd hi wedi cael ar ddeall y gallai'r pwerdy gau am gyfnod, er mwyn adnewyddu rhannau ohonno, ac yn naturiol roedd yn bryderus am ddyfodol swyddi a dyfodol tymor hir y gwaith. Ond o gofio bod llythyrau diweddar gan y Grid Cenedlaethol yn son am bwysigrwydd y pwerdy i'r grid roedd barn arall y byddid yn gwneud popeth posib i sicrhau y byddai'r orsaf yn cynhyrchu hyd eithaf ei gallu tra byddai ceblau cario'r trydan yn cael eu hadnewyddu yn ogystal a rhannau o'r offer cynhyrchu trydan eu hunain.

Addawodd SG gysylltu a Engie (perchennog y pwerdyd) a'r Grid Cenedlaethol am fwy o fanylion.

Trafodwyd hefyd ddyfodol adeilad Mynydd Gwefru, gyda'r cynrychiolwyr eraill am weld y perchennog yn gadael y posibilrwydd o waddol ariannol neu'r tir er budd cymunedol os bydd datblygu yno yn y dyfodol. Pwysleisiodd cynrychiolwyr y Cyngor hwn nad oeddynt am weld datblygiadau anghydnaws o gofio bod y safle yn rhan mewn gwirionedd o amgylchedd y dolydd a'r llyn.

**12 CYFARFOD NESAF:**

Dyddiad y cyfarfod nesaf. <u>Nos Fercher 12 Mai, 2021</u> am 7yh.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Rhys ap Gwilym

Clerc: Dei Tomos Dyddiad 12 Mai, 2021.